

# Ysgolion arbennig annibynnol

## Cwestiynau hunanfyfyrio i gynorthwyo i gryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion arbennig annibynnol

- A oes gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol wedi'i seilio ar wella safonau dysgu a lles?
- Pa dystiolaeth ydych chi'n ei defnyddio i werthuso cynnydd eich disgyblion yn eu dysgu a lles?
- Pa ffynonellau eraill o dystiolaeth uniongyrchol ydych chi'n eu defnyddio i lywio eich gwerthusiad o waith yr ysgol?
- A yw gweithgareddau sicrhau ansawdd yn rhoi gwerthusiad cywir o gryfderau a meysydd i'w datblygu? A ydynt yn helpu i nodi meysydd ystyrlon i'w gwella neu'n annog cydymffurfiad yn unig?
- I ba raddau y mae eich gwerthusiad o gynnydd disgyblion yn llywio'r gwaith o bennu blaenoriaethau ysgol gyfan?
- Pa mor dda mae cynllunio gwelliant yn canolbwyntio ar wella safonau addysgu, dysgu a lles?
- Sut ydych yn cynnwys disgyblion, staff addysgu a rhanddeiliaid eraill mewn prosesau hunanwerthuso?
- I ba raddau y mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cynnig cymorth penodol i athrawon a staff cymorth dysgu i wella ansawdd eu rolau addysgu?
- Pa mor dda mae dysgu proffesiynol yn helpu staff i ddatblygu eu dealltwriaeth o anghenion dysgu ychwanegol eu disgyblion?
- Sut mae dysgu proffesiynol yn cynorthwyo'r ysgol i gyrraedd ei nodau gwella?
- Pa mor dda mae perchnogion a llywodraethwyr (lle bo hynny'n berthnasol) yn deall meysydd i'w gwella'r ysgol a beth mae angen iddi ei wneud i gyflawni'r rhain? Pa mor effeithiol yw'r cymorth y mae perchnogion a llywodraethwyr yn ei gynnig?

Deunyddiau darllen pellach:

[https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/arweinyddiaeth-gwella-ysgolion-cynradd](https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/arweinyddiaeth-gwella-ysgolion-cynradd)
[https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cynnwys-pob-un-or-staff-yn-y-broses-hunanwerthuso](https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cynnwys-pob-un-or-staff-yn-y-broses-hunanwerthuso)